

Sgript Mari Jones

Gwisg: *Gwisg syml ddylai adlewyrchu bywyd merch dlawd yn 1800. Mae'r cyflwyniad yn gweithio'n well os oes modd i'r perfformiwr fod yn droednoeth*

Props: *Beibl o'r cyfnod, os oes modd – neu fel arall llyfr prop syml a di-addurn sy'n edrych fel beibl o'r cyfnod
Bwrdd pren syml i ddal y Beibl – profi bod parch iddo ar yr aelwyd*

Sgript:

MAE MARI'N YMDDANGOS AR Y LLWYFAN, YN FERCH IFANC 15 OED, AC YN LLAWN GOBAITH

Helô! Mari yw fy enw i – Mari Jones. Dwi'n enwog am gerdded 26 milltir, yn droednoeth, er mwyn prynu Beibl. Ond yn fwy na hynny, ma' 'na Gymdeithasau'r Beibl wedi'u sefydlu ar draws y byd oherwydd fy stori i. Ma'n nhw ym mhob man – mewn tua 240 o wledydd i gyd. Ond mewn pentre bach yn Llanfihangel y Pennant mae fy stori i yn cychwyn.

Ar ôl i Dad farw, dim ond Mam a fi oedd yna. Ac ro'n ni o hyd yn gwneud pethau hefo'n gilydd fel mynd i'r capel – ro'n ni'n aelodau o Gapel Methodistaidd Calfaidd yn Cwrt, Abergynolwyn. Ro'dd fan'no tua dwy filltir o'n tŷ ni ac mi fydden ni'n cerdded yno hefo ffrindiau. Ro'n i'n caru'r mynydd ac yn caru cerdded – o'n i'n gweld tlysni ym mhobman ac yn gwbod 'mod i'n ferch lwcus iawn, iawn. Ac ro'n i'n diolch i Dduw am fod yn fyw ac yn iach.

Ac yna, ar ôl i'r haul fachlud, ro'n ni'n adrodd straeon o'n cof – a hynny yn y t'wyllwch achos ro'dd canhwylau'n costio gormod i ni gael gole *bob* nos. Ia - *cofio* – nid darllen. Wel, doedd Mam ddim yn *gallu* darllen, beth bynnag. Ond mi o'n i'n gallu darllen.

MAE HI'N MYND I HWYL WRTH DDWEUD Y STORI

Mi ddechreuais i ddysgu darllen pan o'n i'n wyth oed, ac ro'dd hynny unwaith yr wythnos yn yr Ysgol Sul. Ond do'n i ddim yn medru darllen fel plant heddiw, achos 'dach *chi*'n cael mynd i'r ysgol *bob* dydd. A doedd 'na ddim llyfrau yn ein tŷ ni, tra bod ysgolion a chartrefi heddiw yn *llawn* llyfrau. A dyna pam o'n i'n cerdded dwy filltir i dŷ Mr a Mrs Evans o Gapel Cwrt, achos fan'na oedd y llyfr agosa – y Beibl, hynny ydy.

MAE'N EDRYCH AR Y BEIBL AR Y BWRDD WRTH EI HOCHR CYN EI GODI A'I AGOR

I gychwyn, ro'n i'n edrych ar y Beibl ac yn gweld dim ond rhyw batrymau, ond yn ara' bach, gyda help Mr a Mrs Evans, ro'dd y patrymau'n troi'n eiriau. A'r geiriau'n troi'n straeon!

YN YMARFER – YN GYNTAF MAE'R DYFYNIAD YN CHWITIG, OND ERBYN DIWEDD Y FRAWDDEG MAE'N LLIFO TAN IDDI GYRRAEDD Y GAIR 'MYFYRIO'

'Yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myf-yyyrr-iooooo... '

O... ma hwnna'n air mawr – a be' mae o'n feddwl?

Pan ofynnish i i Mrs Evans, eglurodd hi bod myfyrio yn golygu cadw pethau pwysig yn agos at eich calon, a gadael iddo fo ddod â gwên i'ch wyneb chi. Meddwl amdano... aros... ac yna cario 'mlaen i feddwl amdano. Dyna ydi myfyrio.

Ac yn aml iawn, ro'dd Mr a Mrs Evans yn siarad am ddyn o'r enw Thomas Charles. Ro'n nhw'n deud mai fo oedd eu harwr nhw achos ei fod o isio ysgol i *bawb* – nid dim ond pobl gyfoethog. Ro'dd cannoedd o bobl yn mynd i weld Thomas Charles yn siarad!

Ac ar ddiwedd y dydd, mi fydda hi'n cymryd hanner awr i gerdded adre a weithiau ro'n i'n colli gafael ar amser yn llwyr, ac felly ro'n i'n cyrraedd adre yn y tywyllwch a Mam yn dwrdio... Ac mi fues i'n cerdded yno bob tro o'n i isio darllen, am ddwy flynedd tan o'n i'n ddeg oed.

Ac wedyn... mi ges i'r syniad yma...

Beth petawn i'n *prynu* Beibl i fi a Mam? Wedyn gallwn i ei ddarllen o'n uchel iddi hi a fi, a mi fydden ni'n medru gwneud hynny unrhyw bryd o'n ni isio! Felly, mi redais i at Mam a deud...

“Mam! Mam! Dwi 'di cael syniad – dwi 'di penderfynu... bod rhaid inni gael ein Beibl ein hunain!”

Ac mi roddodd Mam ei llaw ar fy mhen i'n dyner cyn deud, “Mae o rhy ddrud Mari...”

“Ond dwi isio, dwi isio – pliiiiiiiiis!”

“Mae o rhy ddrud Mari!” Roedd hi'n fwy cadarn tro 'ma.

MARI YN GOSOD UN LLAW AR EI CHALON A SIARAD I'R GWYNT

Ond Mam, mae'n *rhaid* imi gael Beibl. Mi wna i gynilo. Dio ddim bwys gen i pa mor hir fydd o'n cymryd. *Chi* sy'n dweud fod pethau da yn dod i bobl sy'n aros. Mi wna i fynd i weithio i bobl a neud rhyw betha bach, a chasglu pob ceiniog. Dyna be wna i.

YNA, YN BENDERFYNOL, GAN EDRYCH YN SYTH AT Y GYNULLEIDFA.

Ia – dyna be wna i! Hyd yn oed os oes rhaid imi fynd yn droednoeth!

A GYDA GWÊN AR EI HWYNEB, MAE'N DAWNSIO ODDI AR Y LLWYFAN MEWN GORFOLEDD.